Rhif: **WG24124**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy’n derbyn gofal yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: **29 Ionawr 2015**
Camau i’w cymryd: Ymatebion erbyn **4 Mai 2015**

# Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn ymwneud ag addysg plant sy'n derbyn gofal, o oedran ysgol gorfodol yn bennaf, ond mae hefyd yn cynnwys y cyfnod pontio i addysg bellach ac addysg uwch. |
| **Sut i ymateb** | Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **4 Mai 2015** fan hwyraf. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.<br><br>Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau |
| **Manylion cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br>Y Tîm Dysgwyr Amrywiol a Diogelu<br>Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost: LACstrategy@cymru.gsi.gov.uk<br>Ffôn: 029 2082 3344 |

OGL

© Hawlfraint y Goron 2015
WG24124

**Diogelu data**

## Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Trosolwg** | **5** |
| **Pennod 1: Y sefyllfa yng Nghymru** | **6** |
| **Pennod 2: Yr achos o blaid newid** | **11** |
| **Pennod 3: Beth sydd ar waith yn barod** | **14** |
| **Pennod 4: Beth arall sydd angen i ni ei wneud?** | **18** |
| **Casgliad** | **30** |

# Cyflwyniad

> *Mae cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn gwella'n araf ond mae gormod o amrywiad o ran cyrhaeddiad, cymorth anghyson a diffyg deilliannau penodol y gellir asesu cynnydd yn eu herbyn.*
>
> Swyddfa Archwilio Cymru, Awst 2012

**1.** Strategaeth ddrafft ar y cyd yw hon rhwng Adran Addysg a Sgiliau ac Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae polisi cydgysylltiedig ar lefel genedlaethol yn hanfodol i helpu i ddarparu gwasanaethau addysg mewn partneriaeth â phartneriaid gofal cymdeithasol a phartneriaid allanol eraill sy'n ymwneud â bywydau bob dydd plant sy'n derbyn gofal.

**2.** Rydym yn gwahodd pawb sydd â chysylltiad â phlant sy'n derbyn gofal yn rhinwedd eu gwaith, eu cyfrifoldebau a'u bywydau i gyfrannu at y sgwrs a nodi camau gweithredu a fydd yn codi uchelgais, dyheadau a chanlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal. Mae'n rhaid i bob rhan o'r system weithio'n effeithiol gyda'i gilydd a chyda phlant sy'n derbyn gofal a'u gofalwyr er mwyn cyflawni'r dasg bwysig iawn hon.

**3.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i helpu plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal i wireddu eu llawn botensial. Ni fydd hyn yn digwydd oni bai bod gwasanaethau addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac eraill yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau:

- bod yr holl blant sy'n derbyn gofal yn cael cymorth a chefnogaeth i'w galluogi i gyflawni canlyniadau addysgol sydd cystal â'u cyfoedion o leiaf
- platfform i gefnogi eu cyfleoedd bywyd a gwella eu cyfleoedd i astudio a chael swyddi yn y dyfodol.

**4.** Mae'r Rhaglen Lywodraethu a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi pa mor bwysig yw gwella bywydau a lles plant sy'n derbyn gofal i Lywodraeth Cymru. Mae Gwella Ysgolion yn darparu map llwybr i sicrhau bod y system addysg yng Nghymru yn cyflawni ein tair blaenoriaeth allweddol, sef llythrennedd, rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

**5.** Mae'r ddogfen Cymwys am Oes – cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru yn cadarnhau ein hymrwymiad i godi safonau ac mae'n cyflwyno ein gweledigaeth y bydd pob dysgwr yn mwynhau dysgu sy'n ei ysbrydoli i lwyddo. Mae gennym amcan syml sy'n nodi y dylai pob plentyn a pherson ifanc elwa ar addysgu a dysgu rhagorol, beth bynnag fo'i gefndir a'i ddechrau mewn bywyd.

**6.** Mae tystiolaeth glir bod y system addysg yn methu cefnogi plant sy'n derbyn gofal yn effeithiol. Fel grŵp, maent yn cael profiadau anfoddhaol sy'n arwain at

gyfraddau cyrhaeddiad addysgol sylweddol is na chyfraddau plant prif ffrwd eraill. Mae gwrando ar blant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau gofal wedi arwain at ddealltwriaeth well o'r rhwystrau a wynebant a sut mae modd gwella mynediad.

**7.** Mae'n rhaid i ni nawr ddeall sut y gallwn ni oresgyn y rhwystrau hyn er mwyn sicrhau bod profiadau addysg plant sy'n derbyn gofal yn gadarnhaol, yn dwyn ffrwyth ac yn arwain at ganlyniadau gwell. Oherwydd y rhwystrau hyn, ychydig iawn o blant sy'n derbyn gofal sy'n mynd ymlaen i addysg bellach ac addysg uwch. Mae sawl her yn deillio o'r broses bontio, ac nid yw'r angen am gymorth yn dod i ben pan fydd plant a phobl ifanc yn gadael gofal.

**8.** Mae cynnydd wedi'i wneud o ran cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal i wireddu eu potensial academaidd, ond bu'r effaith yn gyfyngedig a'r gwelliant yn rhy araf. Mae angen egni o'r newydd i wella perfformiad.

**9.** Mae'r rhan fwyaf o blant sy'n dechrau derbyn gofal yn dod o deuluoedd sy'n dioddef caledi, ac maent yn cael eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd oherwydd camdriniaeth, esgeulustod, neu ryw fath o newid mawr neu fethiant teuluol. Mae'r trawma emosiynol yn cael effaith anochel i raddau gwahanol ar allu'r plant i ddysgu yn effeithiol a gwneud cynnydd dirwystr drwy'r ysgol ac ar ôl hynny.

**10.** Hyd yn oed ar ôl cael statws fel plant sy'n derbyn gofal, mae straen emosiynol yn nodwedd amlwg o'u bywydau, ac mae newid lleoliadau maeth a chyfnodau o beidio â mynychu'r ysgol yn amharu ar eu continwwm dysgu yn aml. Mae hyn yn cael effaith anochel ar hunan-barch a hunanhyder yr unigolyn. Dyma'r union reswm pam y mae angen i bob rhan o'r system sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal weithredu mewn ffordd gydgysylltiedig a chydlynol.

**11.** Pan fydd plentyn yn dechrau derbyn gofal, mae gan yr awdurdod lleol, fel rhiant corfforaethol, ddyletswydd gyfreithiol i ddiogelu a hyrwyddo ei les. Yn ogystal â darparu gofal diogel a dibynadwy ac ymateb i angen y plentyn i fod yn iach, mae'n rhaid i awdurdodau gefnogi cyrhaeddiad addysgol y plentyn.

**12.** Fel rhieni cyfrifol, ni fyddai gennym ddyheadau neu ddisgwyliadau isel ar gyfer ein plant ein hunain. Ni fyddem yn derbyn canlyniadau addysgol gwael yn ddi-gwestiwn. Mae'n rhaid herio perfformiad addysgol gwael a pheidio â derbyn disgwyliadau isel.

**13.** Bydd y strategaeth ddrafft hon yn canolbwyntio ar gamau gofynnol posibl gan bob partner allweddol i helpu plant sy'n derbyn gofal i wella eu canlyniadau addysgol a chyflawni eu potensial. Mae angen gwneud llawer o waith er mwyn gwella'n dealltwriaeth o fywydau plant sy'n derbyn gofal, eu profiad o'r system addysg a'r trefniadau sydd angen i ni eu rhoi ar waith er mwyn cefnogi eu haddysg a gwella eu canlyniadau.

**14.** Diben y strategaeth ddrafft hon yw llywio'r sgyrsiau â rhanddeiliaid allweddol a fydd yn ymrwymo pob un ohonom i wneud cyfraniad llawn ac adeiladol at nodi'r hyn sy'n llwyddo i gefnogi plant sy'n derbyn gofal.

**15.** Ar ôl ymgysylltu cychwynnol â rhanddeiliaid allweddol dros y misoedd blaenorol, ein bwriad yw sicrhau bod yr amcanion strategol lefel uchel canlynol yn llywio'r sgwrs hon ac yn darparu fframwaith ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol:

- codi dyheadau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal a gallu'r rhai sy'n gofalu amdanynt i gefnogi eu datblygiad addysgol
- atgyfnerthu atebolrwydd cyfunol ac arweiniad effeithiol ledled Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion, a sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch ar gyfer canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal
- sicrhau bod addysg yn flaenoriaeth ac yn ganolbwynt, yn enwedig ar adegau o newid mawr ac ansicrwydd, sy'n gallu bod yn nodwedd gyffredin ym mywydau plant sy'n derbyn gofal
- nodi data a fydd yn cynorthwyo ymarfer, llunio polisïau a monitro canlyniadau addysgol
- sicrhau bod unrhyw ymarfer rhagorol yn cael ei nodi, ei hyrwyddo a'i rannu.

**16.** Mae'n rhaid i ni weithio tuag at yr amcanion hyn ar fyrder. Ni all blwyddyn arall basio lle mae'r systemau a'r strwythurau rydym wedi'u rhoi ar waith yn gadael i unrhyw blentyn sy'n derbyn gofal gael profiad addysgol anfoddhaol a methu â chael cyfleoedd i gyflawni ei wir botensial.

# Trosolwg

Mae’r strategaeth ddrafft hon wedi’i threfnu’n 4 pennod

- Mae **Pennod 1** yn disgrifio’r sefyllfa yng Nghymru o safbwynt y polisi a’r ystadegau presennol sy’n ymwneud â phlant sy’n derbyn gofal, gan gynnwys eu perfformiad addysgol.
- Mae **Pennod 2** yn amlinellu’r achos o blaid newid, gan nodi perfformiad plant sy’n derbyn gofal a’r heriau a wynebant.
- Mae **Pennod 3** yn darparu trosolwg o’r fframwaith deddfwriaethol a’r fframwaith polisi sy’n gallu cynorthwyo plant sy’n derbyn gofal a hyrwyddo eu cyrhaeddiad addysgol.
- Mae **Pennod 4** yn nodi camau gweithredu amrywiol i’w rhoi ar waith ar bob lefel er mwyn cryfhau trefniadau a fydd yn cyfrannu at brosesau dysgu mwy effeithiol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal. Nid oes bwriad i’r camau hyn fod yn gyfarwyddol nac yn gaeth ar hyn o bryd. Eu nod yw llywio sgwrs ynglŷn â ble mae angen cryfhau trefniadau sydd eisoes yn bodoli, a ble y gellid ystyried dulliau gweithredu newydd.

**Beth fydd yn digwydd nesaf?**
Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd pob partner i gyfrannu at y sgwrs barhaus ynglŷn â dulliau effeithiol o gefnogi addysg plant sy’n derbyn gofal ac ystyried y trefniadau a gyflwynir yn y strategaeth ddrafft hon. Gofynnir am sylwadau a safbwyntiau ar y trefniadau hyn a threfniadau eraill a fydd, ym marn rhanddeiliaid, yn helpu i sicrhau canlyniadau addysgol gwell ar gyfer plant sy’n derbyn gofal yng Nghymru.

**Diffinio cyrhaeddiad**
Mae *gwella canlyniadau addysgol plant sy’n derbyn gofal* yn cyfeirio at gyrhaeddiad sy’n seiliedig ar nifer o fesurau cyffredin sy’n cael eu diffinio isod.

Mae Lefel 2 gynhwysol (L2 gyn) yn cyfeirio at ennill cymwysterau sy’n gyfwerth â phum TGAU gradd A* i C gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg.

Mae Dangosydd Pynciau Craidd (CSI) yn cyfeirio at gyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn yr Iaith Gymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Mae’r lefelau disgwyliedig yn cael eu mesur yn erbyn asesiadau athrawon sy’n mesur cynnydd a chyrhaeddiad disgwyliedig ym mhob cyfnod allweddol.

Dyma’r lefelau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol:

- Y Cyfnod Sylfaen - Canlyniad 5 y Cyfnod Sylfaen
- Cyfnod Allweddol 2 – Cwricwlwm Cenedlaethol Lefel 4
- Cyfnod Allweddol 3 – Cwricwlwm Cenedlaethol Lefel 5

# Pennod 1: Y sefyllfa yng Nghymru

**1.1.** Mae effaith negyddol cyrhaeddiad addysgol gwael plant sy'n derbyn gofal yn gallu golygu bod y plant hyn yn methu manteisio ar gyfleoedd i symud ymlaen i addysg a hyfforddiant ôl-16 a swyddi da, ac mae hyn yn aml yn wir.

**1.2.** Gwyddom fod nifer o ffactorau 'bywyd' yn aml sydd, oherwydd amgylchiadau personol plentyn, yn gallu amharu ar ei allu i ddysgu a pherfformio'n dda yn yr ysgol. Roedd Deddf Plant 1989 (adran 22) yn gosod cyfrifoldeb cyffredinol ar awdurdodau lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles unrhyw blentyn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod ac yn nodi'r gofynion ar awdurdodau i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n dechrau derbyn gofal.

**1.3.** Roedd Deddf Plant 2004 (adran 52) yn ymestyn y ddarpariaeth hon ac yn rhoi dyletswydd gadarnhaol ar awdurdodau i hyrwyddo cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal ac yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol a phartneriaid perthnasol i gydweithio er mwyn gwella lles plant (adran 25), gan gynnwys ym maes addysg.

**1.4.** Ym mis Gorffennaf 2007, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r ddogfen Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell er mwyn cryfhau lleoliad, iechyd, addysg a lles plant sy'n derbyn gofal. Roedd y canllawiau hyn yn amlinellu camau gweithredu i gryfhau trefniadau ar gyfer addysg plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys yr angen i ddynodi Cydgysylltydd Addysg i oruchwylio cynllun addysg plentyn sy'n derbyn gofal a mynd i'r afael ag anghenion addysgol plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal mewn ardaloedd awdurdodau lleol.

**1.5.** Wrth geisio dod o hyd i leoliad gofal priodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, mae'n ofynnol i awdurdodau ystyried argaeledd lleoliad addysgol addas. Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, mae hyn yn golygu lle llawn amser mewn ysgol brif ffrwd leol sy'n *cychwyn yn ddi-oed*. Ac eithrio am resymau iechyd a diogelwch clir, er enghraifft, pan fydd angen lle diogel ar blentyn ar unwaith, ni ddylid trefnu lleoliadau gofal oni bai bod modd darparu lefel briodol o addysg. Dylai'r gwasanaethau addysg helpu gweithiwr cymdeithasol a gofalwr plentyn i ddod o hyd i leoliad addysgol priodol, gan gynnwys lleoliadau y tu allan i'r awdurdod.

**1.6.** Roedd yr elfennau addysg allweddol eraill yn cynnwys:

- y brif ystyriaeth wrth drefnu lleoliad plentyn yw anghenion iechyd ac addysg y plentyn, ac unrhyw anghenion iechyd meddwl penodol
- datblygu Cynllun Addysg Personol effeithiol o ansawdd uchel o fewn 20 diwrnod i blentyn yn dechrau derbyn gofal neu'n dechrau mewn ysgol newydd
- dylai'r gwaith cynllunio ddechrau cyn y lleoliad
- trosglwyddo cofnodion addysg yn brydlon
- gofyniad i bob cartref preswyl ddynodi gweithiwr cyswllt sy'n gyfrifol am hyrwyddo cyflawniad addysgol y plentyn.

**1.7** Cyflwynodd Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (adran 20) drefniadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru ddynodi aelod

o staff i fod â phrif gyfrifoldeb am hyrwyddo cyflawniad addysgol plant sy’n derbyn gofal.

**1.8** Roedd y ddogfen Pe bai'n blentyn i mi: Arweiniad i gynghorwyr ynghylch bod yn rhiant corfforaethol da i blant mewn gofal ar rai sy'n gadael gofal a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn 2009 yn atgoffa aelodau etholedig am eu cyfrifoldeb i weithredu fel rhieni corfforaethol da i blant sy’n derbyn gofal a’r rhai sy’n gadael gofal. Mae rhieni corfforaethol da eisiau’r un canlyniadau ar gyfer y plant o dan eu gofal a’r rhai sy’n gadael gofal ag y byddai pob rhiant da yn dymuno ar gyfer eu plant drwy sicrhau eu bod yn gwneud popeth posibl i roi’r cychwyn gorau posibl iddynt.

**1.9** Bob blwyddyn yng Nghymru rydym yn cyhoeddi amrywiaeth o ystadegau yn ymwneud â phlant sy’n derbyn gofal, gan gynnwys yr adroddiad ystadegol blynyddol Mabwysiadau, Canlyniadau a Lleoliadau ar gyfer Plant sy'n derbyn gofal Awdurdod Lleol sy’n cyflwyno gwybodaeth am blant sy’n destun gorchmynion gofal a phlant eraill sy’n cael llety gan eu hawdurdod lleol. Mae Cyfrifiad Plant mewn Angen Cymru yn cynnwys data ar ganlyniadau addysgol ym mhedwar cyfnod allweddol y categorïau Plant mewn Angen (un o’r rhain yw plant sy’n derbyn gofal) ynghyd â’r data ‘Disgyblion yng Nghymru’ cyffredinol.

**1.10** Ar sail data Cyfrifiad Plant mewn Angen 2013 ac adroddiad ystadegol plant sy’n derbyn gofal 2014, mae’r adran hon yn cynnwys gwybodaeth am nodweddion plant sy’n derbyn gofal ac yn cymharu eu perfformiad addysgol â pherfformiad poblogaeth yr ysgolion prif ffrwd. Mae’r canlyniadau’n dangos bod y system yn methu’r rhan fwyaf o blant sy’n derbyn gofal ym maes addysg.

**1.11** Mae ystadegau plant sy’n derbyn gofal 2014 yn dangos bod:

- 5,755 o blant yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol Cymru ar 31 Mawrth 2014.

## Rhyw

3,110 o fechgyn

- 150 – o dan 1 oed
- 620 - 1-4 oed
- 740 – 5-9 oed
- 1,055 – 10-15 oed
- 540 – 16-17 oed

2,645 o ferched

- 160 – o dan 1 oed
- 500 – 1-4 oed
- 580 – 5-9 oed
- 975 – 10-15 oed
- 435 – 16-17 oed

## Ethnigrwydd

- nodir bod 5,250 o blant sy'n derbyn gofal yn Wyn
- nodir bod 175 o blant sy'n derbyn gofal yn Gymysg eu Hil
- nodir bod 65 o blant sy'n derbyn gofal yn Asiaidd neu'n Asiaidd Prydeinig
- nodir bod 45 o blant sy'n derbyn gofal yn Ddu neu'n Ddu Prydeinig
- nodir bod 50 o blant sy'n derbyn gofal yn perthyn i grwpiau ethnig eraill
- mae ethnigrwydd 170 o blant sy'n derbyn gofal yn anhysbys.

Noder: Mae'r data wedi'i dalgrynnu i'r 5 agosaf at ddibenion datgelu.

## Lleoliadau

- cafodd 71% o blant sy'n derbyn gofal un lleoliad yn ystod y flwyddyn
- cafodd 21% o blant sy'n derbyn gofal ddau leoliad yn ystod y flwyddyn
- cafodd 8% o blant sy'n derbyn gofal dri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn


**1.12** Mae Cyfrifiad Plant mewn Angen Cymru yn nodi'r grwpiau canlynol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn 2013:

- mae 90% o blant sy'n derbyn gofal rhwng 5 a 15 oed yn mynychu ysgolion prif ffrwd
- mae 10% o blant sy'n derbyn gofal rhwng 5 a 15 oed yn mynychu ysgolion arbennig
- mae gan 13% o blant sy'n derbyn gofal anabledd

## Cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim ac anghenion addysgol arbennig:


- roedd 26% o blant sy'n derbyn gofal yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- nid oedd gan 34% o blant sy'n derbyn gofal unrhyw anghenion addysgol arbennig
- roedd gan 66% o blant sy'n derbyn gofal ryw fath o anghenion addysgol arbennig

**Siart 1:** Y bwlch yn y Cyfnod Sylfaen a'r Cyfnodau Allweddol rhwng canlyniadau addysgol plant mewn angen, plant sy'n derbyn gofal a'r holl ddisgyblion ar 31 Mawrth 2013




Foundation Phase – Cyfnod Sylfaen
Key Stage 2 CSI – Dangosydd Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 2
Key Stage 3 CSI – Dangosydd Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 3
Key Stage 4 – Cyfnod Allweddol 4
All children in need – Yr holl blant mewn angen
Children not looked after – Plant nad ydynt yn derbyn gofal
Children looked after – Plant sy'n derbyn gofal
Pupils in Wales – Disgyblion yng Nghymru
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant mewn Angen
* Cyfnod Allweddol 4: 5 TGAU gradd A*- C gan gynnwys TGAU gradd A* - C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg

**Siart 2:** Y bwlch yn y Cyfnod Sylfaen a'r Cyfnodau Allweddol rhwng canlyniadau addysgol plant mewn angen, plant sy'n derbyn gofal a'r holl ddisgyblion ar 31 Mawrth 2012





Foundation Phase – Cyfnod Sylfaen
Key Stage 2 CSI – Dangosydd Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 2
Key Stage 3 CSI – Dangosydd Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 3
Key Stage 4 – Cyfnod Allweddol 4

All children in need – Yr holl blant mewn angen
Children not looked after – Plant nad ydynt yn derbyn gofal

Children looked after – Plant sy'n derbyn gofal
Pupils in Wales – Disgyblion yng Nghymru
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant mewn Angen
* Cyfnod Allweddol 4: 5 TGAU gradd A*- C gan gynnwys TGAU gradd A* - C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg

**Siart 3:** Y bwlch yn y Cyfnodau Allweddol rhwng canlyniadau addysgol plant mewn angen, plant sy'n derbyn gofal a'r holl ddisgyblion ar 31 Mawrth 2011




Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant mewn Angen
* Cyfnod Allweddol 4: 5 TGAU gradd A*- C gan gynnwys TGAU gradd A* - C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg

# Pennod 2: Yr achos o blaid newid

**2.1** Mae angen i ni roi camau effeithiol a chynaliadwy ar waith i fynd i'r afael â thanberfformio addysgol plant sy'n derbyn gofal.

**2.2** Mae lefelau perfformiad yn annerbyniol ar hyn o bryd, ac ychydig iawn o gynnydd sy'n cael ei wneud o un flwyddyn i'r llall. Mae gormod o blant sy'n derbyn gofal yn gadael addysg orfodol â dim ond ychydig o gymwysterau, neu ddim cymwysterau o gwbl, ac maent yn cael eu methu gan system sy'n eu troi'n unigolion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn aml iawn, neu sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid. Nid yw hyn yn digwydd bob amser, ond mae'n rhaid i ni wella cyfleoedd bywyd plant sy'n derbyn gofal mewn system sy'n rhy barod i dderbyn bod perfformiad gwael yn anochel i ryw raddau.

**2.3** Yn ôl ystadegau 2014 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, roedd 193 o'r 427 o bobl ifanc yn gadael gofal a gafodd eu pen-blwydd yn 19 oed yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth yn NEET, sef 45% o'r grŵp hwn.

**2.4** Mae'n bosibl na fydd addysg dda a chanlyniadau llwyddiannus mewn arholiadau yn rhwystro plant sy'n derbyn gofal rhag gwneud y dewisiadau anghywir mewn bywyd, ond bydd sylfaen addysg gref yn eu paratoi ar gyfer bywyd, yn agor cyfleoedd iddynt ac yn llywio dewisiadau bywyd gwell.

**2.5** Mae un o'r chwe egwyddor allweddol yn y ddogfen Cymwys am Oes yn datgan: "Mae dysgwyr yn ganolog i bopeth a wnawn. Mae dyheadau uchel gennym ni ar gyfer yr hyn a gyflawnant a'u lles: *ni ddylai cefndir plentyn neu berson ifanc byth gyfyngu ar yr hyn a gyflawnant.* Er mwyn rhoi'r lle canolog yn ein system addysg i'r dysgwr, mae'n rhaid i ni gael dysgu perthnasol, heriol sy'n cael ei werthfawrogi, wedi'i ddarparu gan athrawon, darlithwyr a staff cefnogi sy'n ysbrydoli a fydd, yn eu tro, yn creu dysgwyr ysbrydoledig".

## Tueddiadau ystadegol

**2.6** Mae'r wybodaeth hon yn cymharu cyfraddau cyrhaeddiad rhwng blynyddoedd, ac nid yw'n cymharu'r un plant.

**2.7** Yn 2013, cafwyd ychydig o welliant yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cafwyd cynnydd o 2% (o 51% i 53%) yng Nghyfnod Allweddol 2, a chynnydd o 3% (o 33% i 36%) yng Nghyfnod Allweddol 3. Ni chafwyd unrhyw newid yng nghanlyniadau Cyfnod Allweddol 4 a chafwyd yr un ganran ag yn 2012, sef 13%.

**2.8** Er bod plant sy'n derbyn gofal yn parhau i berfformio'n well na'r rhai sy'n perthyn i'r categori plant mewn angen, o gymharu â'r categori disgyblion cyffredinol yng Nghymru, mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y cyfraddau cyrhaeddiad ym mhob Cyfnod Allweddol. Er enghraifft, yn 2013 roedd cyfradd cyrhaeddiad y categori disgyblion cyffredinol yng Nghymru yng Nghyfnod Allweddol 3 yn 77%, o gymharu â dim ond 36% ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'n rhaid i ni gau'r bwlch hwn.

**2.9** Casglwyd ystadegau'r Cyfrifiad Plant mewn Angen am y tro cyntaf yn 2010. Ar hyn o bryd, nid oes gennym ddigon o wybodaeth o gyfrifiadau blaenorol i ddilyn taith addysgol plentyn penodol sy'n derbyn gofal o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4. Fodd bynnag, dyma rywbeth rydym wedi'i nodi at ddibenion monitro'r dyfodol.


**2.10** Mae cyfradd y gwelliant yng nghyfran y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru sydd wedi ennill cymwysterau dros y pedair blynedd diwethaf yn debyg iawn i'r duedd gyffredinol ledled y DU. Oherwydd y gwahaniaethau rhwng y systemau addysg, nid oes modd cymharu holl lefelau cymwysterau plant sy'n derbyn gofal.

**2.11** Fodd bynnag, gallwn gymharu'r gyfradd â chyfradd Lloegr a'i rhanbarthau yng Nghyfnod Allweddol 4.

**2.12** Mae'r tabl isod yn cymharu cyrhaeddiad Lloegr, Gogledd-ddwyrain Lloegr a Chymru yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae rhanbarth Gogledd-ddwyrain Lloegr wedi'i gynnwys gan ei fod yn debyg i Gymru o safbwynt ffactorau economaidd-gymdeithasol.

**2.13** Mae'r ystadegau hyn yn dangos bod cyrhaeddiad addysgol isel plant sy'n derbyn gofal yn amlwg yn Lloegr yn ogystal â Chymru.

**Siart 4:** Cymharu cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal: Canran y rhai a gafodd 5+ TGAU gradd A*-C neu gymwysterau cyfwerth gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 4




Wales – Cymru
England – Lloegr
North East – Gogledd-ddwyrain Lloegr
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant mewn Angen

**2.14** Mae cyrhaeddiad addysgol isel plant sy'n derbyn gofal wedi bod yn broblem ers amser maith, ac ychydig iawn o arwyddion sydd o welliant sylweddol. Mae perygl y gall y sefyllfa hon arwain at ddyheadau a disgwyliadau isel ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ymysg y rhai sydd agosaf atynt. Mae angen i ni ystyried dulliau newydd o droi'r patrymau hyn o berfformiad annigonol ar eu pen.

**2.15** Mae'r strategaeth ddrafft hon yn cydnabod bod llawer yn cael ei wneud i gefnogi plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys ymrwymiad y rhai sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal i wella eu cyrhaeddiad addysgol. Fodd bynnag, ar sail y data a'r sgyrsiau rydym wedi'u cael â rhanddeiliaid yn y cyfnod yn arwain at gyhoeddi'r strategaeth ddrafft hon, mae yna dystiolaeth glir bod angen i ni weithio'n fwy effeithiol er mwyn atgyfnerthu canllawiau, gwella atebolrwydd, herio ymarfer a chodi safonau.

# Pennod 3: Beth sydd ar waith yn barod

**3.1** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella cyfleoedd bywyd a chanlyniadau holl blant Cymru.

**3.2** Gwyddom fod ymyriadau cynnar wedi'u targedu yn y blynyddoedd cynnar yn cael effaith gadarnhaol ar newid canlyniadau ar gyfer plant sy'n cael eu nodi fel plant 'mewn angen'. Mae nifer o raglenni a pholisïau eisoes yn helpu ac yn cynorthwyo teuluoedd sy'n wynebu anawsterau, sy'n deillio'n aml o'r ffaith eu bod yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd ac yn golygu ei bod yn anodd iddynt ddarparu'r gofal angenrheidiol ar gyfer eu plant. Mae angen cymorth amlasiantaethol effeithiol er mwyn helpu i sicrhau nad yw plant mewn angen yn gorfod cael eu rhoi mewn gofal. Serch hynny, dan rai amgylchiadau, y ffordd fwyaf priodol o symud ymlaen yw rhoi'r plentyn mewn gofal a rhoi'r cymorth priodol iddo.

**3.3** Nod ein rhaglen y blynyddoedd cynnar yw rhoi cymorth a chanllawiau cadarn i deuluoedd a'u plant sy'n wynebu amgylchiadau anodd a heriau mawr.

**3.4** Ein prif amcan yw cynorthwyo teuluoedd i ofalu am eu plant. Os nad yw hynny'n bosibl, rydym yn disgwyl rhagor o sefydlogrwydd ar gyfer y plant sy'n derbyn gofal o safbwynt eu cyfeillgarwch ag eraill, eu bywydau ysgol ac ar gyfer y rhai sy'n eu cynorthwyo.

**3.5** Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyflwyno cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill.

**3.6** Mae'r fframwaith deddfwriaethol newydd yn sylfaen i'r gwaith o wella canlyniadau ar gyfer plant a'u teuluoedd.

**3.7** Bydd y **Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol** yn helpu i gyflwyno'r Ddeddf, ac mae'n cael ei ddatblygu ar y cyd â phartneriaid allweddol o'r sector statudol, y trydydd sector a'r sector preifat. Bydd y Fframwaith yn darparu cyd-destun ystyrlon a chynhwysfawr i wella canlyniadau plant sy'n derbyn gofal a phlant ac oedolion yn ehangach. Mae'n nodi disgwyliadau pobl o safbwynt y cymorth a'r gwasanaethau a fydd yn cyfrannu tuag at eu lles.

**3.8** Bydd fframwaith mesur perfformiad symlach ar gyfer gwasanaethau yn sylfaen i'r Fframwaith Canlyniadau, Cenedlaethol. Bydd yn cael ei nodi fel rhan o'n Cod Ymarfer sy'n cael ei ddatblygu i gefnogi'r Ddeddf, sy'n dod i rym ym mis Ebrill 2016. Bydd y fframwaith yn cynnwys mesurau ansawdd, safonau a pherfformiad sy'n dangos cyfraniad sefydliadau at les pobl.

**3.9** Mae'r Ddeddf yn cyflwyno amrywiaeth o ddarpariaethau i gryfhau dewisiadau a sefydlogrwydd lleoliadau a fydd yn gwneud y canlynol:

- sicrhau bod plant yn cael eu lleoli yn agos at eu cymuned leol neu mewn cymuned gyfagos oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny
- galluogi plant i gael eu lleoli gyda'u darpar fabwysiadwyr

- darparu ar gyfer plant i aros gyda'u gofalwyr maeth troi'n ddeunaw.

**3.10** Bydd y Ddeddf hefyd yn ein galluogi i gryfhau rheoliadau ynglŷn ag osgoi amharu ar addysg os oes angen. Bydd cynllun llwybrau plant a phobl ifanc hyd at 25 oed sy'n parhau mewn addysg neu'n dychwelyd i addysg yn nodi'r cymorth a gânt gan awdurdodau lleol.

**3.11** Yn ôl y Codau Derbyn ac Apelau i Ysgolion 2013, er ei bod yn hanfodol dod o hyd i le mewn ysgol yn gyflym ar gyfer plant nad oes ganddynt le, mae Deddf Addysg 1996 yn caniatáu gohirio eu derbyn hyd at ddechrau'r tymor ysgol. Mewn achosion o symud o un ysgol i'r llall nad ydynt yn golygu symud tŷ, neu lle nad oes angen symud ar unwaith, hwyrach y bydd yr awdurdodau derbyn am drefnu bod plentyn yn dechrau mewn ysgol ar ddechrau tymor er mwyn tarfu cyn lleied ar addysg y plentyn ac ar addysg plant eraill. Mae'n **rhaid** i'r awdurdodau sy'n derbyn plant i ysgolion sicrhau nad yw hyn yn niweidio plant sy'n agored i niwed, fel plant sy'n derbyn gofal.

**3.12** Yn ogystal, dylai plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi derbyn gofal ddod yn gyntaf wrth bennu'r meini prawf ar gyfer neilltuo lleoedd ym mhob ysgol sydd â phrinder lleoedd. Mae gan y cod rym statudol, ac mae'n rhaid i'r awdurdodau derbyn i ysgolion, y paneli apelio a'r fforymau derbyn i ysgolion i gyd weithredu yn unol â'r trefniadau a sefydlwyd gan y Cod.

**3.13** Rydym wedi cyflwyno canllawiau ar gyfer darpariaeth teithio gan ddysgwyr ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fel y gallant aros yn yr un ysgol, lle bo hynny'n ymarferol, hyd yn oed pan fydd eu lleoliad preswyl yn newid.

**3.14** Rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2014, aeth Llywodraeth Cymru ati i ymgynghori ar amrywiaeth o ddiwygiadau posibl i'r system mewn Papur Gwyn, Cynigion Deddfwriaethol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Roedd hyn yn cynnwys cynigion i gyflwyno fframwaith deddfwriaethol unedig i ddisodli'r fframweithiau deddfwriaethol ar wahân presennol yn ymwneud ag anghenion addysgol arbennig (AAA) a'r gwaith o asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD) ym maes addysg a hyfforddiant ôl-16.

**3.15** Cynigiwyd y dylai Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) ddisodli datganiadau o AAA, asesiadau ôl-16 (o dan adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau (2000)) a Chynlluniau Addysg Unigol (CAU) a chynlluniau ôl-16 ar gyfer pob dysgwr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n mynychu neu'n dymuno mynychu ysgol a gynhelir, uned cyfeirio disgyblion, Sefydliad Addysg Bellach neu ddarpariaeth ôl-16 arbenigol. Ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, cynigiwyd y byddai'r CDU naill ai'n gallu disodli neu gyflawni swyddogaeth Cynlluniau Addysg Personol (CAP), sydd eu hangen ar gyfer y dysgwyr hyn ar hyn o bryd.

**3.16** Er y cydnabyddir na fydd gan bob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal ADY, roedd y Papur Gwyn yn dadlau bod y gorgyffwrdd rhwng cynnwys tebygol CDU a CAP sydd eisoes yn bodoli, a'r gyfran sylweddol o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal sydd ag ADY, yn golygu bod sail resymegol ar gyfer dod â'r ddau gynllun hwn ynghyd.

**3.17** Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn wrth ddatblygu manylion y darpariaethau sydd i'w cynnwys mewn bil drafft, a fydd yn cael ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2015.

**3.18** Y **Grant Amddifadedd Disgyblion** yw prif fodd Llywodraeth Cymru o ddarparu cymorth ariannol i wella canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal.

**3.19** Mae'r grant yn cael ei ddyrannu i bob ysgol ar sail nifer y disgyblion 5-15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar sail data cyfrifiad yr ysgol ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Mae elfen plant sy'n derbyn gofal y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei dyrannu i bob ysgol ar sail nifer y plant 4-15 oed sy'n derbyn gofal ar sail data SSDA y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Yn 2014-15, y dyraniad fesul disgybl oedd £918. Bydd hyn yn codi i £1050 yn 2015-16 fesul disgybl cymwys ac i £1150 yn 2016-17. Mae'r grant hefyd yn cael ei ymestyn i blant tair a phedair oed yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfradd o £300 fesul disgybl cymwys. Mae'r grant yn cael ei ddirprwyo 100% i ysgolion ar hyn o bryd..

**3.20** Mae'r **sector Addysg Bellach** yn cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru i ehangu cyfranogiad, mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol ac ysgogi adfywiad economaidd. Mae sefydliadau Addysg Bellach yn gwneud gwaith pwysig o safbwynt nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o roi'r gorau i'w haddysg a darparu cymorth i helpu i gadw eu diddordeb. Fodd bynnag, gall addysg ar ôl oedran gorfodol fod yn her i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal gan fod yr addysg hon yn rhoi mwy o bwyslais ar astudiaeth annibynnol. Gall gadael yr ysgol a mynd i'r coleg fod yn anodd i unrhyw berson ifanc, yn enwedig i'r rhai nad oes ganddynt amgylchedd cartref sefydlog i'w cefnogi.

**3.21** Mae'r **Lwfans Cynhaliaeth Addysg** (LCA) yn darparu cymhelliant o £30 yr wythnos i bobl ifanc barhau mewn addysg ar ôl gadael yr ysgol. Grant o hyd at £1,500 sy'n cael ei asesu ar sail incwm yw **Grant Dysgu'r Cynulliad AB** (ar gyfer y rhai 19+), a'i nod yw annog mwy o bobl i barhau â'u haddysg, lle na fyddai hynny'n bosibl fel arall. Er mwyn sicrhau bod y cymorth hwn yn fwy hygyrch ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, mae'r broses o wneud cais am y grant wedi'i symleiddio, ac mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr sy'n gweinyddu'r ddau grant yn ymdrin â'u ceisiadau yn gyflym.

**3.22** Yn 2010, ymestynnodd **Buttle UK** ei Farc Safon i'r sector AB er mwyn datblygu'r gwaith o'i gyflwyno'n llwyddiannus ym maes addysg uwch. Mae'r Marc Safon wedi'i ddyfarnu i sefydliadau sy'n dangos bod ganddynt strategaethau cadarn i gefnogi dysgwyr o gefndir gofal. Mae'n cynnwys meini prawf yn ymwneud â gwaith partneriaeth effeithiol, hygyrchedd darpariaeth a chymorth ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, arweiniad diduedd a hyfforddiant staff.

**3.23** Ym mis Ebrill 2014, cyhoeddodd **Buttle UK** ei benderfyniad i roi'r gorau i ddyfarnu'r Marc Safon, ac i ganolbwyntio yn hytrach ar weithio gyda'r sectorau AB ac AU i sefydlu darpariaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Rydym yn disgwyl y bydd pob sefydliad yn parhau i weithio tuag at egwyddorion y Marc Safon yn y dyfodol, gan adeiladu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'n hanfodol bod sefydliadau yn dynodi aelod o staff i weithredu fel pwynt cyswllt a chynghorydd allweddol gydol y rhaglen ddysgu. Mae'r

cysondeb hwn yn hollbwysig er mwyn helpu'r rhai sy'n gadael gofal i ddeall pa gymorth sydd ar gael iddynt a mynd i'r afael â phroblemau a all eu rhwystro rhag gwneud cynnydd.

**3.24** Mae Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn nodi ei ymrwymiad i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yng nghyd-destun ei thema strategol o ehangu mynediad sy'n ceisio *sicrhau cynhwysiant, dilyniant a llwyddiant mewn addysg uwch*. Mae Dull strategol CCAUC o Ehangu Mynediad *a'i* Strategaeth Tlodi Plant hefyd yn cydnabod cyfraniad posibl addysg uwch at gefnogi pobl o gefndiroedd gofal.

**3.25** Mae prifysgolion yn cefnogi plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal cyn ac yn ystod eu cyfnod ym maes addysg uwch fel rhan o'u hymrwymiadau i strategaethau cynlluniau ffioedd ac ehangu mynediad. Un dull o ehangu mynediad yw Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach Cymru gyfan. Mae'r tair Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach rhanbarthol yn darparu rhaglenni dyhead addysgol a chodi sgiliau ar gyfer ysgolion a chymunedau mewn partneriaeth â darparwyr addysg bellach a darparwyr addysg eraill.

**3.26** O ganlyniad i Farc Safon Buttle UK, mae mwy o waith yn cael ei wneud ym maes addysg uwch i goladu a monitro data yn ymwneud â'r rhai sy'n gadael gofal. Mae llawer o'r rhai sy'n gadael gofal yn gorfod wynebu cyfnodau sy'n amharu ar eu haddysg, ac mae angen cyfleoedd dysgu eraill arnynt cyn eu bod yn barod i lwyddo ym maes addysg uwch. Er nad oes llawer o ddata wedi'i gasglu hyd yma, mae nifer y rhai sy'n gadael gofal ac yn mynd ymlaen i addysg uwch yn parhau i fod yn isel. Mae prifysgolion yn sylweddoli bod paratoi pobl ifanc i adael gofal awdurdodau lleol yn hollbwysig i'w cyfleoedd bywyd yn y dyfodol. I hwyluso'r broses hon, maent yn darparu nifer o ymyriadau gan gynnwys cyfleoedd i ymweld â champysau prifysgolion, mentora, gwybodaeth am AB ac AU, cyngor ac arweiniad a gweithdai AU ar gyfer gofalwyr a'r rhai sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal.

**3.27** Cyflwynwyd y Rheoliadau Bwrsari Addysg Uwch ym mis Mawrth 2011, gan roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i dalu bwrsari o £2000 i unrhyw berson ifanc a oedd yn arfer derbyn gofal sy'n dymuno dilyn cwrs mewn prifysgol. Yn sgil ymrwymiad prifysgolion i ehangu mynediad i unigolion o gefndiroedd difreintiedig, mae llawer ohonynt yn cynnig amrywiaeth o becynnau cymorth ariannol ar sail anghenion unigol. Mae'r bwrsari Addysg Uwch yn ategu pecynnau cymorth o'r fath.

**3.28** Mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu cynghorydd personol i weithredu fel mentor i'r sawl sy'n gadael gofal, gan ystyried gofynion cymorth yr unigolyn, ar ôl eu trafod â'r sawl sy'n gadael gofal.

# Pennod 4: Beth arall sydd angen i ni ei wneud?

**4.1** Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi siarad â rhanddeiliaid allweddol er mwyn dechrau nodi meysydd gweithredu lle mae angen gwelliannau i fynd i'r afael â thangyflawni.

**4.2** Mae'r meysydd hyn – strategol a gweithredol – yn cael eu harchwilio'n fanylach yn y bennod hon. Byddant yn sylfaen i'r sgwrs sy'n parhau rhwng Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol drwy'r ymgynghoriad a datblygiad y strategaeth derfynol. Bydd angen i ni ddeall y meysydd hyn yn well dros y misoedd nesaf a nodi ble a sut y gallai camau gweithredu wedi'u targedu arwain at welliant.

## Strategol:

- hyrwyddo dull gweithredu cenedlaethol cyson er mwyn codi dyheadau ar bob lefel
- darparu arweiniad corfforaethol cryfach sydd wedi ymrwymo i wella addysg plant sy'n derbyn gofal
- egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud â'r agenda plant sy'n derbyn gofal
- cryfhau ac atgyfnerthu trefniadau a phartneriaethau pob asiantaeth
- gwella cyfathrebu rhwng pawb sy'n gysylltiedig â bywydau plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal
- sicrhau ymrwymiad corfforaethol i ddod o hyd i ddulliau gweithredu gwell er mwyn cael dylanwad cadarnhaol ar ganlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal
- defnyddio data yn fwy effeithiol er mwyn deall sut mae modd cael cydbwysedd rhwng cyrhaeddiad a chyflawniad

## Gweithredol:


- nodi a gweithredu'r camau ymarferol sydd eu hangen i oresgyn rhwystrau i ddarpariaeth
- herio tanberfformio mewn ffordd gadarn
- egluro ac alinio'r disgwyliadau ar gyfer y swyddogaethau allweddol i gefnogi plant sy'n derbyn gofal
- rhannu arferion da a sicrhau cysondeb cenedlaethol wrth ddehongli'r canllawiau sydd eisoes yn bodoli
- gwella'r broses o fonitro canlyniadau cyllid ar gyfer cefnogi plant sy'n derbyn gofal
- gwella'r broses o rannu gwybodaeth a gweithio rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a Chydgysylltwyr Addysg plant sy'n derbyn gofal.

**4.3** Gan ddefnyddio'r meysydd hyn fel canllaw, mae'r bennod hon yn nodi amrywiaeth o gamau gweithredu posibl i gryfhau trefniadau ar sail 3 prif thema:

A. Arweiniad effeithiol – swyddogaethau a chyfrifoldebau

B. Datblygu partneriaethau effeithiol a chydweithio

C. Dysgu ac addysgu effeithiol.




Gwelliant cyrhaeddiad

plant sy'n derbyn gofal

**4.4** Mae'n rhaid i'r meysydd hyn weithio'n effeithiol gyda'i gilydd er mwyn sicrhau gwelliant, ac mae gwaith pob un ohonynt yn hollbwysig er mwyn gwella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Fe'u cefnogir gan 3 maes pwysig arall:

D. Cryfhau a gwella'r defnydd o wybodaeth sy'n cael ei chadw am blant sy'n derbyn gofal

E. Cryfhau'r trefniadau ariannu i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal


F. Cyfranogiad plant sy'n derbyn gofal i lywio dulliau gweithredu strategol a phenderfyniadau gweithredol.

## A. Arweiniad effeithiol – swyddogaethau a chyfrifoldebau

**4.5** Mae amrywiaeth o weithwyr proffesiynol mewn nifer o ddisgyblaethau ar gael i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal. Maent yn perthyn i bob sector, ac mae gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn cyflawni swyddogaeth arweiniol. Er mwyn sicrhau'r canlyniadau cywir, mae'n rhaid i bawb ganolbwyntio ar y plentyn wrth gyflawni eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

**4.6** Mae'r diagram yn dangos y cysylltiadau amlasiantaethol cymhleth sydd ar waith i ddarparu cymorth. Os yw unrhyw un o'r cysylltiadau'n cael ei reoli'n aneffeithiol, mae lles ac addysg y plentyn yn debygol o ddioddef. Mae'n rhaid i bob rhan o'r system ddeall ei chyfrifoldeb a chyflawni ei chyfrifoldebau mewn ffordd briodol ac amserol.

Plant a Phobl Ifanc yn cael eu derbyn i ofal – Asiantaethau a Chysylltiadau



**4.7** Mae’n rhaid i arweiniad ddarparu her, cael ei herio ac arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer plant sy’n derbyn gofal. Mae llinell atebolrwydd clir yn hanfodol ar bob lefel o’r awdurdod lleol - swyddogion ac aelodau etholedig - i’r corff llywodraethu, y pennaeth a’r rhai â chyfrifoldebau penodol, ac athrawon. Mae’n rhaid sicrhau bod gofalwyr, rhieni maeth a’r plant sy’n derbyn gofal yn gwneud cyfraniad bob cam o’r ffordd hefyd. Heb linellau atebolrwydd clir ac ymrwymiad cryf i gefnogi addysg plant sy’n derbyn gofal, bydd cyrhaeddiad a chanlyniadau’n parhau i fod yn anfoddhaol.

**4.8** Mae’r adran ganlynol wedi’i llywio gan drafodaethau â phartneriaid allweddol, ac mae’n awgrymu sut y gellid cryfhau a thargedu camau gweithredu yn y dyfodol er mwyn gwella arweiniad ac egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau – Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol ac ysgolion a cholegau.

**Llywodraeth Cymru**

**4.9** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda’i phartneriaid i sicrhau fframwaith clir er mwyn cyflawni swyddogaethau a chyfrifoldebau y cytunir arnynt yn effeithiol i gefnogi darpariaeth leol. Byddwn yn hwyluso gwelliant strategol. Byddwn yn cydweithio ag eraill er mwyn sicrhau bod pawb sy’n gweithio gyda phlant sy’n derbyn gofal yn rhannu canlyniadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd wedi’u diffinio’n glir.

**4.10** **Cam gweithredu:** Mae **Pennaeth Ysgol Rhithwir** – uwch swyddog awdurdod lleol sy’n gyfrifol am ddarparu cymorth cydgysylltiedig ar gyfer plant sy’n derbyn gofal ac am wella eu cyflawniadau addysgol – wedi’i dreialu mewn rhai ardaloedd o Gymru a’i sefydlu yn Lloegr yn dilyn astudiaethau peilot yn 2007. Yn Lloegr, mae’r swydd yn seiliedig ar ganllawiau statudol.

**4.11** Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried manteision y dull gweithredu hwn ac yn cyhoeddi canllawiau statudol newydd i gefnogi gwaith swyddogion arweiniol awdurdodau lleol sy’n gyfrifol am blant sy’n derbyn gofal.

**4.12** **Cam gweithredu:** Cyflwynodd Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 drefniadau sy’n ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru ddynodi aelod o staff i fod â’r prif gyfrifoldeb am hyrwyddo cyflawniad addysgol plant sy’n derbyn gofal yn yr ysgol.

**4.13** Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar swyddogaethau a chyfrifoldebau’r unigolyn arweiniol dynodedig ar gyfer plant sy’n derbyn gofal mewn ysgolion, a chyfrifoldebau cyrff llywodraethu i gefnogi’r gwaith hwnnw.

**4.14** **Cam gweithredu:** Bydd y broses o weithredu Deddf Gwasanaethau a Llesiant (Cymru) 2014 a’r Cynllun Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy yn gyfle i ni ailystyried y swyddogaethau statudol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal. Mae’r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau sy’n ymwneud ag addysg plant sy’n derbyn gofal yn benodol, a bydd y rhain yn cryfhau’r gofynion sy’n sicrhau bod y plant hyn yn derbyn profiad addysgol llawnach a bod lefel eu cyrhaeddiad addysgol yn well a chystal â’u cyfoedion prif ffrwd.

**4.15** Bydd Llywodraeth Cymru yn atgyfnerthu atebolrwydd corfforaethol drwy swyddogaeth statudol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddwn yn ystyried trefniadau – yn seiliedig ar y ddeddfwriaeth newydd – a fydd yn cryfhau canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn sicrhau bod y canlyniadau disgwyliedig hyn yn cael eu gwireddu.

**4.16** **Cam gweithredu:** Mae **Llywodraeth yr Alban** yn datblygu gwaith i wella canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal. Gwyddom hefyd fod dulliau gweithredu llwyddiannus yn cael eu rhoi ar waith yn yr Almaen a Denmarc ar gyfer addysg plant sy'n derbyn gofal. Mae angen i ni ddysgu o ddulliau gweithredu uchelgeisiol ac amgen mewn llefydd eraill er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

**4.17** Byddwn yn cydweithio'n agos â Llywodraeth yr Alban i archwilio ble mae dulliau amgen yn cael eu rhoi ar waith ac ystyried sut y gallent gynorthwyo cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Byddwn hefyd yn ystyried enghreifftiau o arferion da ledled y byd.

### Awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol

**4.18** Mae swyddogaeth yr awdurdodau lleol yn hollbwysig, yn bennaf oherwydd y cyfrifoldebau sydd gan bob aelod etholedig yn ôl y ddogfen Pe bai'n blentyn i mi: Arweiniad i gynghorwyr ynghylch bod yn rhiant corfforaethol da i blant mewn gofal ar rai sy'n gadael gofal a gyhoeddwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ym mis Mehefin 2009. Roedd yr arweiniad yn gyfle i bob aelod etholedig ystyried *'a fyddwn yn gweithredu fel hyn pe bai'n blentyn i mi?'*

**4.19** **Cam gweithredu:** Dylai awdurdodau lleol adolygu swyddogaethau gweithwyr allweddol a sicrhau bod cyfrifoldeb ac atebolrwydd yn amlwg ym mhob rhan o'r system. Yn benodol, dylai awdurdodau lleol wneud trefniadau i:

- ddynodi aelod etholedig i fod â phrif gyfrifoldeb am addysg plant sy'n derbyn gofal
- cynorthwyo cyrff llywodraethu i sicrhau bod llywodraethwr arweiniol yn cael ei ddynodi ym mhob ysgol a gynhelir i fod â phrif gyfrifoldeb am addysg plant sy'n derbyn gofal. Dylai plant sy'n derbyn gofal fod yn eitem sefydlog yng nghyfarfodydd llywodraethwyr ysgolion
- adolygu swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Cydgysylltydd Addysg plant sy'n derbyn gofal a'r unigolyn dynodedig sydd â phrif gyfrifoldeb am blant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion er mwyn sicrhau proses gydgysylltiedig a chydweithredol a chodi lefel y cymorth sydd ar gael. Dylai hyn sicrhau bod cynnydd dysgwyr yn cael ei olrhain yn fanwl gan Gydgysylltwyr Addysg plant sy'n derbyn gofal ar y cyd ag ysgolion, fel bod ymyriadau'n cael eu rhoi ar waith yn gyflym lle mae'n ymddangos bod lefelau cyrhaeddiad yn gostwng
- cefnogi gofalwyr maeth er mwyn sicrhau mai hyrwyddo addysg yw'r elfen bwysicaf ac nad yw tanberfformio yn dderbyniol. Mae'n rhaid sicrhau bod gofalwyr maeth – drwy hyfforddiant os oes angen – yn meddu ar y sgiliau gofynnol i herio ysgolion lle nad yw cyrhaeddiad y plentyn yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig, a rhaid iddynt fod yn

ymwybodol o'r staff allweddol y mae angen iddynt siarad â nhw i wneud hynny.

**Ysgolion a cholegau**

**4.20** Mae'n rhaid i bob ysgol barhau i ganolbwyntio'n briodol ar blant sy'n derbyn gofal o ddydd i ddydd, a hynny ar y lefel agosaf i'r plant. Mae'n rhaid dynodi staff allweddol sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd priodol i arwain gwaith gyda phlant sy'n derbyn gofal. Mae dealltwriaeth o'r system ofal ac o'r effaith bosibl y mae bod mewn gofal yn ei chael ar addysg plentyn, a sut i'w goresgyn, yn fantais amlwg.

**4.21** **Cam gweithredu:** Dylai'r corff llywodraethu ddewis:

- llywodraethwr arweiniol dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Bydd y gwaith pwysig hwn yn cynnwys gweithredu fel eiriolwr, craffu ar y trefniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer y plant hyn a'u herio, a chynorthwyo'r unigolyn arweiniol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol.
- aelod arweiniol dynodedig o staff ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a fydd yn cydweithio'n agos â'r llywodraethwr arweiniol er mwyn hyrwyddo cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Dylai'r aelod arweiniol o staff sicrhau bod gan yr ysgol bolisi wedi'i gadarnhau yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal sy'n cyd-fynd â dull gweithredu a dyletswydd yr awdurdod lleol i hyrwyddo cyrhaeddiad addysgol. Mae'n rhaid dynodi aelod o staff i wneud y gwaith hwn p'un ai a oes plentyn sy'n derbyn gofal ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd ai peidio.

**4.22** Mewn cydweithrediad â'r pennaeth, dylid darparu adnoddau, cymorth a hyfforddiant priodol i sicrhau bod pobl sy'n cyflawni'r swyddogaethau allweddol hyn yn gallu gwneud eu gwaith yn effeithiol. Dylai Llywodraethwyr Cymru fod â chysylltiad agos â'r gwaith hwn.

**4.23** **Cam gweithredu:** Mae sefydliadau addysg bellach yng Nghymru wedi gwneud gwaith rhagorol i ennill Marc Safon Buttle UK. Er bod Buttle UK wedi rhoi'r gorau i weinyddu'r Marc Safon, dylai pob sefydliad barhau i weithio i fodloni ei feini prawf a datblygu'r arferion da presennol. Dylai sefydliadau barhau i ddangos arweiniad cryf a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i sicrhau bod dysgwyr o gefndir gofal yn cael y cymorth gorau posibl.

## B. Datblygu partneriaethau effeithiol a chydweithio

**4.24** Bydd yr ymgynghoriad hwn yn fan cychwyn i sgwrs genedlaethol ynglŷn â sut y gallwn ni gydweithio'n well ac yn fwy effeithiol i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal, a bydd yn helpu i hwyluso gwaith partneriaeth a chydweithio. Mae angen i ni sicrhau bod trefniadau ar waith i ddatblygu'r sgwrs honno a bod y momentwm yn parhau ar lefel genedlaethol i lywio'r strategaeth derfynol, a'r hyn sy'n digwydd wedyn.

**4.25** Mae plant a phobl ifanc sy'n dechrau derbyn gofal yn mynd yn rhan o gyfres o systemau a chysylltiadau cymhleth. O ystyried natur gymhleth yr asiantaethau a'r

gweithwyr proffesiynol sy’n cefnogi bywydau plant sy’n derbyn gofal, mae cydweithio effeithiol yn hanfodol. Bydd cydweithio ar bob lefel yn helpu partneriaid i rannu arferion cadarn a nodi gwendidau a rhwystrau posibl.
**4.26** Un thema gref sydd wedi deillio o’r sgyrsiau hyd yn hyn yw’r teimlad bod yn rhaid i’r gwasanaethau cymdeithasol a’r gwasanaethau addysg yn benodol gydweithio’n fwy effeithiol i alluogi pobl ifanc i barhau mewn addysg a chyflawni eu potensial. Gwyddom y gall cynnydd a chyrhaeddiad plentyn gael eu heffeithio’n sylweddol os yw’n gorfod newid lleoliad ar adegau pwysig o’i fywyd ysgol. Mae arholiadau a’r cyfnod pontio rhwng yr ysgol gynradd a’r ysgol uwchradd yn amseroedd allweddol.

**4.27 Cam gweithredu:** Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal sgyrsiau â rhanddeiliaid gydol yr ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, mae’n hollbwysig nad ymarferiad untro mo hwn a bod y momentwm yn parhau. O ganlyniad, byddwn yn gwneud trefniadau i’r sgwrs genedlaethol hon barhau ymysg rhanddeiliaid allweddol. Mae’n rhaid i’r sgwrs ganolbwyntio ar gefnogaeth gan gymheiriaid ar gyfer ymarferwyr, rhannu arferion da a nodi a goresgyn rhwystrau i lwyddiant.

**4.28 Cam gweithredu:** Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio’n agos ag Estyn i ystyried pa wybodaeth a fyddai’n helpu i gefnogi cydweithio a darpariaeth ar lefel leol. Gall y meysydd gwaith gynnwys:

- nodi plant sy’n derbyn gofal fel grŵp ar wahân – yn ogystal â fel ‘pawb sy’n agored i niwed’ – er mwyn olrhain eu cynnydd ac effaith ymyriadau penodol yn well a helpu i sicrhau bod strwythurau arweiniad mewn ysgolion yn blaenoriaethu anghenion plant sy’n derbyn gofal yn well
- i gyd-fynd â chyflwyno’r strategaeth derfynol, dylid darparu astudiaethau achos cadarn fel bod Cydgysylltwyr Addysg plant sy’n derbyn gofal ac ysgolion yn gallu manteisio ar arferion llwyddiannus i’w helpu i gynorthwyo plant sy’n derbyn gofal.

**4.29 Cam gweithredu:** Byddai cryfhau swyddogaeth y trydydd sector yn sicrhau agwedd fwy holistaidd tuag at ddarpariaeth ac at ddarparu partneriaid ac eiriolwyr ar gyfer plant sy’n derbyn gofal, nad yw’n hawdd ennyn eu diddordeb mewn addysg yn aml. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gallai’r trydydd sector siarad ar ran plant sy’n derbyn gofal ynglŷn â datblygu trefniadau a fydd yn cefnogi eu cyrhaeddiad addysgol.

**4.30 Cam gweithredu:** Mae cyfleoedd ar gael i awdurdodau lleol sydd â phroffiliau dysgwyr tebyg gydweithio mwy a datblygu dulliau mwy effeithiol o rannu arferion da, arbenigedd proffesiynol a chymorth addysgu. Dylai awdurdodau lleol weithio gyda chonsortia addysg rhanbarthol er mwyn ystyried cyfleoedd i gydweithio mwy er mwyn cefnogi arferion gwell a mwy cyson, a rhannu arferion da.

**4.31 Cam gweithredu:** Dylid adolygu a chryfhau protocolau lleol presennol drwy ddefnyddio cytundebau lefel gwasanaeth a threfniadau memoranda cyd-ddealltwriaeth. Mae asiantaethau sy’n methu cydweithio’n ystyrlon yn gallu cael effaith hynod niweidiol ar blant sy’n derbyn gofal a’u haddysg. Er mwyn osgoi amharu ar addysg plant sy’n derbyn gofal, dylai gwasanaethau cymdeithasol ac

adrannau addysg ystyried a oes modd i'r plentyn barhau i fynychu'r un ysgol hyd yn oed os yw ei leoliad preswyl yn newid.

**4.32 Cam gweithredu:** Dylai awdurdodau lleol ac ysgolion gydweithio i ddatblygu deunyddiau i helpu gofalwyr a rhieni maeth i ddeall pwysigrwydd ymgysylltu ag ysgolion a darparwyr addysg ôl-16 plant sy'n derbyn gofal. Dylent hefyd gydweithio i hyrwyddo anghenion addysgol plant sy'n derbyn gofal.

**4.33 Cam gweithredu:** Dylai ysgolion gryfhau swyddogaeth eiriolwyr i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwybodaeth glir a thryloyw i blant sy'n derbyn gofal am eu hawliau hyd at addysg bellach ac addysg uwch. Dylent gydweithio'n agos â sefydliadau fel sefydliadau AB ac AU, Gyrfa Cymru, Gwasanaethau Cymorth i'r Rhai sy'n Gadael Gofal (CLASS) Cymru a chonsortia rhanbarthol er mwyn gwella prosesau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth i sicrhau nad yw pobl ifanc dros 16 oed yn mynd yn NEET.

**4.34 Cam gweithredu:** Yn aml, mae'n rhaid i blant sy'n derbyn gofal ddatgelu eu statws 'derbyn gofal' wrth ymrestru mewn sefydliad addysg uwch er mwyn derbyn eu bwrsari addysg uwch. Yn aml, mae'r broses hon yn rhwystro plant sy'n derbyn gofal rhag manteisio ar eu hawl oherwydd y stigma posibl y gallant deimlo sy'n gysylltiedig â hyn. Gallai gwella'r broses o rannu gwybodaeth rhwng y rhiant corfforaethol, yr ysgol a'r sefydliad addysg uwch ac adolygu'r broses bresennol wella'r sefyllfa hon.

## C. Addysgu a dysgu effeithiol

**4.35** Mae ysgolion yn deall y cyfraniad pwysig y gallant ei gael tuag at wella ansawdd bywyd ac addysg plant sy'n derbyn gofal yn sylweddol. Mae llawer o ysgolion eisoes wedi cyflwyno arferion cynaliadwy rhagorol i gefnogi plant sy'n derbyn gofal. Yn gyffredinol, maent yn gwybod mwy nag yn y gorffennol, ac yn gallu nodi anghenion plant sy'n derbyn gofal yn well.

**4.36** Yn aml, gall profiadau bywyd plant sy'n derbyn gofal arwain at ymddygiad y gellid ei gategoreiddio fel afreolaidd ac afresymol. Gall plant sy'n derbyn gofal ddioddef o anhwylderau ymlyniad a phroblemau emosiynol eraill y mae angen i athrawon allu eu rheoli mor sensitif â phosibl. Dylid rhoi blaenoriaeth i gadw'r dysgwr yn yr ysgol gan ofyn am gyngor yr awdurdod lleol a chyrff proffesiynol eraill yn ôl y gofyn. Dylid cynnwys adrannau gwasanaethau cymdeithasol a'r Cydgysylltydd Addysg plant sy'n derbyn gofal mor gynnar â phosibl, gan weithio gyda'r ysgol a gweithwyr proffesiynol eraill i osgoi'r angen i wahardd y dysgwr.

**4.37** Mae'n rhaid olrhain taith addysgol plant sy'n derbyn gofal fel y gellir cyfnewid gwybodaeth pan fydd plentyn yn newid ysgol a chadw cofnod cywir o'i addysg. Mae prosesau olrhain gwell hefyd yn helpu i nodi bylchau yn natblygiad addysgol y plentyn a'r meysydd lle mae angen cymorth ychwanegol. Mae'n rhaid i'r Cynllun Addysg Personol (a/neu'r Cynllun Datblygu Unigol) fod yn amserol, yn gywir ac yn ystyrlon, a rhaid iddo berthyn i'r plentyn a chael ei ddatblygu ar y cyd gan y darparwr addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol. Wrth greu amgylchedd lle mae plentyn yn teimlo'n rhan o'r broses, mae'n llai tebygol o gael ei ddadrithio.

**4.38** Mae'r adran hon yn ailadrodd pwysigrwydd darparu'r cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen ar blant sy'n derbyn gofal er mwyn eu paratoi'n well i lwyddo yn

academaidd. Dylai ysgolion ganolbwyntio’n benodol ar y camau gweithredu arfaethedig hyn, gan fynd i’r afael ag unrhyw fylchau ar unwaith. Bydd gwaith yr aelod o staff arweiniol a’r llywodraethwr arweiniol yn ymwneud â phlant sy’n derbyn gofal yn hollbwysig i roi’r trefniadau hyn ar waith, ond dylai pobl aelod o staff fod yn ymwybodol o’r trefniadau i gynorthwyo plant sy’n derbyn gofal.

**4.39** Ers peth amser, mae’r prif ffocws wedi bod ar gyrhaeddiad academaidd plant sy’n derbyn gofal. Fodd bynnag, ni ddylai’r elfen hon gystadlu â datblygiad (cyflawniad) personol a chymdeithasol plant. Dylai’r ddwy elfen ategu ei gilydd. Mae cyflawniad a chyrhaeddiad plant sy’n derbyn gofal yn effeithio ar eu hanghenion cymhleth a’u hanghenion personol a chymdeithasol ac yn nid ydynt yn annibynnol ar ei gilydd. Mae angen dadansoddi cyrhaeddiad plant sy’n derbyn gofal yn fanwl er mwyn sicrhau bod cyflawniad yn ystyrlon ar gyfer y plentyn. Gall y cyflawniadau hyn wella’r broses o bennu targedau.

**4.40 Cam gweithredu:** Bydd ysgolion yn sicrhau bod plant sy’n derbyn gofal yn cael blaenoriaeth yn y broses o dderbyn disgyblion a bod absenoldebau anesboniadwy yn derbyn sylw yn ddi-oed. Sefydlogrwydd yw’r ffactor allweddol. Mae hyn hefyd yn golygu mai dim ond yn yr achosion mwyaf eithafol y dylid ystyried gwahardd disgyblion. Bydd ysgolion yn gweithio’n agos gyda Chydgysylltwyr Addysg plant sy’n derbyn gofal a’r Swyddog Lles Addysg i fonitro presenoldeb plant sy’n derbyn gofal ac ymateb yn syth i absenoldebau diwrnod cyntaf.

**4.41 Cam gweithredu:** Bydd ysgolion yn rhoi pwyslais ar y broses o rannu gwybodaeth, sydd angen ei gwneud mewn ffordd amserol. Os yn bosibl, dylid trefnu cyfarfodydd rhannu gwybodaeth cyn bod disgybl yn dechrau mewn ysgol newydd fel arfer da cyffredinol. Dylai’r cyfarfodydd gynnwys staff priodol o ysgol newydd y plentyn ac o’i hen ysgol ynghyd â gweithwyr cymdeithasol a staff o asiantaethau eraill.

**4.42 Cam gweithredu:** Bydd ysgolion yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol penodol ar gael yn ymwneud â rheoli ymddygiad heriol a nodi anghenion plant sy’n dioddef o broblemau trawma ac ymlyniad.

**4.43 Cam gweithredu:** Gwella gweithgareddau olrhain er mwyn monitro cynnydd addysgol plant sy’n derbyn gofal a sicrhau bod Cynlluniau Addysg Personol a Chynlluniau Datblygu Unigol ar waith, gan weithio gyda staff allweddol yr awdurdod lleol.

**4.44 Cam gweithredu:** Dylai ysgolion gydweithio ac ymgynghori â phlant sy’n derbyn gofal er mwyn pennu targedau ymarferol, gan gydnabod y gall addysg fod yn isel ar agenda’r person ifanc oherwydd materion emosiynol eraill.

**4.45** Byddwn ni’n gwybod ein bod, ar y cyd, yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gyrhaeddiad addysgol plant sy’n derbyn gofal os oes mwy o’r plant hyn yn dewis parhau â’u haddysg ar ôl oedran ysgol gorfodol. Fodd bynnag, gall ysgolion a darparwyr addysg ôl-16 gydweithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig o lawer er mwyn cynorthwyo plant sy’n derbyn gofal wrth iddynt symud ymlaen i addysg bellach ac addysg uwch. Gellid cynnig a darparu mwy o gymorth ymarferol.

**4.46 Can gweithredu**: Disgwylir i ysgolion drefnu bod disgyblion blwyddyn 11 yn ymweld â cholegau er mwyn cael mwy o wybodaeth am y cyrsiau sydd ar gael a'r gofynion mynediad. Yn ogystal, dylai colegau drefnu diwrnodau/gyda'r nosau agored pwrpasol ar gyfer darpar fyfyrwyr sy'n blant sy'n derbyn gofal, a allai gynnwys gwybodaeth am eu hawliau ariannol a'r trefniadau cymorth sydd ar gael.

**4.47 Cam gweithredu:** Mae ysgolion a sefydliadau ôl-16 yn cael eu hannog i ffurfioli protocolau a chytundebau lefel gwasanaeth er mwyn cefnogi'r gwaith o rannu gwybodaeth a hwyluso cyfnod pontio llwyddiannus o'r ysgol i addysg ôl-16 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

**4.48** Er bod angen gwella perfformiad cyffredinol y rhan fwyaf o blant sy'n derbyn gofal, ni allwn anwybyddu enghreifftiau o waith rhagorol mewn ysgolion. Mae rhywfaint o'r arfer da hwn yn cael ei rannu, ond mae'n digwydd ar sail ad hoc. Mae angen i ni gyd fanteisio ar arferion da a'u defnyddio yn ein gwaith gyda phlant sy'n derbyn gofal.

## D. Cryfhau a gwella'r defnydd o wybodaeth sy'n cael ei chadw am blant sy'n derbyn gofal

**4.49** Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio gwella ansawdd a dibynadwyedd y data y mae'n ei gasglu ar grwpiau sy'n agored i niwed. Mae'r cyfrifiad Plant mewn Angen a gyflwynwyd yn 2008-09 yn cynnwys plant sy'n derbyn gwasanaethau cymorth yn gyson am dri mis hyd at 31 Mawrth ym mlwyddyn y cyfrifiad. Mae'r cymorth yn cael ei ariannu gan gyllidebau gwasanaethau cymdeithasol plant, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn cymorth yn eu teuluoedd neu'n annibynnol, plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal.

**4.50** Mae data'r cyfrifiad yn cael ei gyplysu â data ar addysg i ddarparu trosolwg o gyrhaeddiad ledled y Cyfnodau Sylfaen a phob un o'r Cyfnodau Allweddol. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio data'r cyfrifiad ar y cyd â gwybodaeth arall er mwyn dadansoddi a chynllunio eu patrymau gweithgarwch ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ac addysg plant, a chymharu eu poblogaethau o blant mewn angen â phoblogaethau awdurdodau lleol eraill.

**4.51** Er bod ansawdd y data sy'n cael ei gasglu wedi gwella, byddwn yn sicrhau bod y data yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd gadarn fel bod yr ymyriadau sydd ar waith i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn amserol ac yn effeithiol.

**4.52 Cam gweithredu:** Gan weithio gyda'n partneriaid, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu sut mae data ar blant sy'n derbyn gofal yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi er mwyn cyfnerthu setiau data lluosog a lleihau cymhlethdod.

**4.53** Mae'n rhaid i ni ddeall yn well pa effaith y mae profiadau bywyd yn ei chael ar blentyn sy'n dechrau derbyn gofal, a'r goblygiadau posibl i blant sy'n derbyn gofal o ffordd o fyw sy'n ansefydlog ac yn symudol yn aml. Bydd y gwaith ymchwil hwn yn gofyn yn uniongyrchol am safbwyntiau plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol.

**4.54 Cam gweithredu:** Byddwn yn comisiynu prosiect ymchwil ar blant sy'n derbyn gofal i'n galluogi i ddysgu am eu profiadau o addysg a chasglu tystiolaeth o arferion da drwy ymchwilio'n eang mewn cyfnodolion. Bydd y gwaith ymchwil hwn yn ceisio cael sylwadau uniongyrchol gan blant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi derbyn gofal a bydd yn llywio camau gweithredu'r strategaeth derfynol.

## E. Cryfhau'r trefniant ariannu i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal

**4.55** Mae cyllid y Grant Amddifadedd Disgyblion, sy'n ceisio cefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal ac yn cael ei ddyrannu i gonsortia addysg rhanbarthol i'w ddirprwyo i ysgolion, yn aneffeithiol wrth ddarparu tystiolaeth o wella canlyniadau addysgol. Mae hyn yn deillio'n rhannol o'r ffaith fod y bwlch mewn amser rhwng casglu data a dyrannu'r cyllid yn rhwystro'r gwaith o roi ymyriadau effeithiol ac amserol ar waith. Credwn fod angen dull gweithredu mwy holistaidd a strategol wrth ddyrannu cymorth ariannol.

**4.56 Cam gweithredu**: O 2015-16 ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru yn ailgyfeirio elfen plant sy'n derbyn gofal y Grant Amddifadedd Disgyblion i gonsortia addysg rhanbarthol. Byddant yn gyfrifol am sicrhau bod cefnogaeth a dargedir yn cael effaith wirioneddol ar sail tystiolaeth ar gyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu trefniadau gweithredu effeithiol.

**4.57** Mae Adoption UK (Cymru) a Chydgysylltwyr Addysg plant sy'n derbyn gofal wedi disgrifio sut mae'r problemau cymhleth sy'n effeithio ar allu plentyn i gyflawni ei botensial addysgol yn parhau yn aml ar ôl i'r plentyn gael ei fabwysiadu. Mae hyn yn creu her i'r teulu sy'n mabwysiadu'r plentyn ac i ysgolion, gan fod y cyllid presennol i ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer y plentyn yn dod i ben pan gaiff ei fabwysiadu.

**4.58 Cam gweithredu:** Er mwyn sicrhau bod cymorth yn parhau hyd yn oed pan fydd plentyn yn newid lleoliad neu ysgol, byddwn yn sicrhau bod telerau ac amodau grant rhanbarthol newydd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn hyblyg. Bydd hyn yn galluogi consortia i ddefnyddio cyllid a briodolir i blant sy'n derbyn gofal yn y Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi ymyriadau ar gyfer plant a oedd yn arfer derbyn gofal ac sydd wedi'u mabwysiadu bellach. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddeall ym mha feysydd y gall ymyriadau effeithiol gael yr effaith fwyaf.

## F. Cyfranogiad plant sy'n derbyn gofal at y gwaith o lywio dulliau gweithredu strategol a phenderfyniadau gweithredol

**4.59** Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a all effeithio arnynt. Sail gyfreithiol y ddyletswydd hon yw Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud unrhyw drefniadau sy'n addas yn eu barn nhw i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant ym mhenderfyniadau'r awdurdod a all effeithio arnynt.

**4.60** Er mwyn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth, disgwylir i awdurdodau lleol weithio gyda phartneriaid perthnasol i sicrhau bod amrywiaeth o gyfleoedd a'r cymorth priodol gofynnol yn cael eu darparu i hwyluso cyfranogiad effeithiol. Dylai'r cyfleoedd hyn sicrhau bod cyfranogiad plant fel unigolion yn cael ei gynnwys mewn gwasanaethau o ddydd i ddydd yn ogystal â mewn strwythurau cyfranogi penodol fel fforymau ar gyfer plant, fforymau ar gyfer pobl ifanc, neu grwpiau/fforymau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc sydd ar y cyrion, yn agored i niwed neu sydd â diddordeb arbennig mewn mater penodol.

**4.61** Rydym yn disgwyl i bawb sy'n gysylltiedig â lles ac addysg plant sy'n derbyn gofal fod yn bobl ddibynadwy y gellir ymddiried ynddynt, sy'n trin y plant â pharch ac yn gwrando ar eu safbwyntiau.

**4.62** **Cam gweithredu:** Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda phlant sy'n derbyn gofal – proses a fydd yn cael ei hwyluso gan sefydliad y trydydd sector *Voices From Care* – i ddatblygu'r strategaeth derfynol a'r astudiaeth ymchwil gysylltiedig er mwyn ystyried yr effaith ar blant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Bydd hefyd yn ystyried trefniadau yn y dyfodol i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnwys yn rheolaidd yn y trefniadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i gefnogi eu haddysg. Fel rhan o'n hymarferiad ymchwil a'n hymgynghoriad parhaus yn ymwneud â'r strategaeth ddrafft hon, byddwn yn archwilio dulliau gwell o sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn teimlo'n rhan o'r system addysg ac yn credu bod ganddynt y grym i fynegi eu safbwyntiau ar eu datblygiad, eu cyrhaeddiad a'u dyheadau.

# Casgliad

**1.** Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd pob rhanddeiliad allweddol i gyfrannu at y sgwrs genedlaethol hon ar drefniadau i wella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

**2.** Mae'r ddogfen a atodir yn gofyn am eich safbwyntiau ar y materion a'r camau gweithredu amrywiol sy'n cael eu nodi yn y ddogfen ddrafft hon. Ar ôl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi strategaeth derfynol a fydd yn cynnwys camau gweithredu â therfynau amser. Bydd y strategaeth hon yn destun trefniadau monitro blynyddol a fydd yn llywio cynnydd ac yn sicrhau bod y camau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith yn amserol.

**3.** Bydd strategaeth Llywodraeth Cymru yn sefydlu **dyhead cenedlaethol ar gyfer canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal** a chynnydd sylweddol o safbwynt cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal ym mhob cyfnod allweddol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â phartneriaid allweddol drwy'r strategaeth hon er mwyn pennu targed cenedlaethol ymarferol yn y strategaeth derfynol. Defnyddir y Cyfrifiad Plant mewn Angen i fonitro'r targed hwn yn agos bob blwyddyn er mwyn gwirio cynnydd a sicrhau bod y cymorth sydd ar waith yn gweithio'n effeithiol. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r trefniadau monitro hyn i roi rhagor o fesurau ar waith mewn amgylchiadau lle mae'n amlwg nad yw gwelliannau'n cael eu gwneud.

……mae fframwaith newydd, a mwy effeithiol o bosibl, ar gyfer cyflawni polisi yn datblygu. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ei chynigion i ddarparu addysg a gofal cymdeithasol ar lefel fwy rhanbarthol a chenedlaethol. Yn ogystal, mae awdurdodau lleol yn parhau i ddatblygu partneriaethau cynllunio lleol. Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn cynnig fframwaith newydd a allai ddatblygu strategaethau cydgysylltiedig a chliriach ar gyfer pobl ifanc sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau. Fodd bynnag, mae perygl o hyd na fydd plant sy'n agored i niwed yn cael y sylw manwl ac unigol sydd ei angen arnynt.

Swyddfa Archwilio Cymru, Awst 2012